Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**CCCC 2014**
**Cofnodion y cyfarfod ar 30 Medi 2010**

**Dyddiad: 30 Medi 2010**
**Amser: 16.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4B**

## Cofnodion y cyfarfod ar 30 Medi 2010

**Yn bresennol:**
**Y Llywydd, Cadeirydd**
**Lorraine Barrett AC (Llafur)**
**Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)**
**Chris Franks AC (Plaid Cymru)**
**William Graham AC (Ceidwadwyr)**

**Swyddogion yn bresennol:**
**Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu**
**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**
**Ian Summers, Pennaeth yr Uned Gorfforaethol**
**Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol**
**Helen Finlayson, yr Ysgrifenyddiaeth**

**Cynghorwyr Annibynnol:**
**Dim**

**Arsylwyr:**
**Dim**

**Eraill:**
**Dim**

**1. Cyflwyniad**

**Datgan buddiannau**
**Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.**

**Cofnodion y cyfarfod ar 21 Medi 2010**
**Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.**

**Materion yn codi o'r cyfarfod ar 21 Medi 2010**
**Nid oedd unrhyw faterion yn codi.**

**2. Diddymiad**
**Cyflwynodd Dianne Bevan bapur dau, yn nodi'r ymgynghoriad helaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad a'r staff cymorth sydd wedi arwain at y cynigion diwygiedig, ynghyd â chyngor cyfreithiol. Cafwyd cadarnhad mai trefniadau trosiannol ar gyfer yr etholiadau yn 2011 yw'r cynigion diwygiedig, ac y bydd newidiadau yn cael eu gwneud o bosibl ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.**

**Bu'r Comisiwn yn trafod y cynigion, a gofynnodd bod arweiniad pellach yn cael ei baratoi o ran defnyddio swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol yn ystod y cyfnod diddymu ac o ran archifo deunyddiau electronig. Diolchodd y Comisiwn i'r Aelodau a'r staff cymorth am eu hymateb i'r ymgynghoriad.**

**Cafwyd cytundeb gan fwyafrif o aelodau'r Comisiwn ar y pwyntiau a ganlyn: gall staff cymorth sy'n cael eu hariannu gan lwfansau'r Cynulliad barhau i weithio ar waith achos sydd eisoes wedi dechrau ac ar dasgau cyffredinol yn y swyddfa yn ystod y cyfnod diddymu; caiff staff cymorth enwebedig ddefnyddio cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel yn ystod y cyfnod diddymu; uchafswm y cyfnod rhybudd i staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau na fydd yn dychwelyd; y gall staff cymorth barhau i weithio yn Nhŷ Hywel cyhyd ag y bo hyn yn cyd-fynd â rhaglen gynnal a chadw'r swyddfeydd; a'r egwyddorion ar gyfer trefniadau TGCh.**

**3. Gweithredu'r cynllun i godi tâl am barcio**
**Cyflwynodd Dianne Bevan bapur tri, yn nodi'r ymgynghoriad eang ymhlith Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth, staff y Cynulliad, yr Undebau Llafur a defnyddwyr eraill yr ystâd sydd wedi arwain at y cynigion diwygiedig.**

Nododd y Comisiwn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer codi tâl am barcio a gytunwyd mewn egwyddor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, gan sylwi bod yr arweiniad wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw. Gofynnwyd bod y trefniadau ar gyfer taliadau yn ystod absenoldeb oherwydd salwch yn cael eu hailystyried; heblaw hynny, cafodd yr *Arweiniad ar gyfer cyflwyno tâl am barcio* ei gymeradwyo.

4. Cyflwyniad i Gomisiwn y Cynulliad

Cyflwynodd Claire Clancy bapur pedwar, yn nodi bod cwestiynau wedi codi yn ystod y Trydydd Cynulliad o ran rôl y Comisiwn. Mae'r Cyflwyniad i'r Cynulliad wedi'i ddatblygu i grynhoi'r arferion presennol ac i ddarparu ffynhonnell glir a hygyrch o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Comisiwn.

Cymeradwyodd y Comisiwn y *Cyflwyniad i Gomisiwn y Cynulliad*.

5. Y Strategaeth e-ddemocratiaeth

Cyflwynodd Dianne Bevan bapur pump, yn nodi bod y strategaeth e-ddemocratiaeth yn cynnig dulliau i gynyddu cyfranogiad gan bobl Cymru drwy ddefnyddio technolegau a sianelau cyfathrebu newydd.

Bu'r Comisiwn yn trafod y strategaeth, a diolchodd i'r staff am eu hagwedd arloesol tuag at gynyddu deialog a chyfranogiad effeithiol. Nodwyd bod arolwg gan Gynhadledd Llywyddion Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthau Ewrop wedi darganfod bod y Cynulliad ymysg y ddwy senedd orau yn Ewrop ar gyfer e-weithredu.

Cytunodd y Comisiwn ar y cyfeiriad strategaethol a amlinellir yn y papur.

6. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Cynulliad

Adroddodd Keith Bush bod y Prif Weithredwr wedi cael llythyr gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn amlinellu'r bwriad i ymchwilio os yw'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael ei dorri ai peidio. Anfonwyd ateb yn ailadrodd safbwynt y Comisiwn nad oes gan y Bwrdd bwerau i weithredu ymchwiliad statudol, ond yn cytuno i ymateb yn wirfoddol i'r honiad a gofyn am ragor o fanylion, gan gynnwys gwybodaeth am y weithdrefn arfaethedig.

**Rhoddodd Dianne Bevan y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am gyflwyno prosiect UNO i'r Aelodau. Er bod rhai problemau wedi codi, nodwyd bod cost y prosiect yn parhau i fod o fewn yr amcangyfrif. Diolchodd y Comisiwn i staff yr adran TGCh am eu gwaith caled a phroffesiynol ar brosiect UNO.**

**Cafodd y Comisiwn y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Diswyddo ac Ymddeol Cynnar Gwirfoddol, gan nodi y bydd tua 20 o bobl yn gadael y sefydliad yn ystod mis Hydref.**

7. Materion i'w nodi

**Nododd a chytunodd y Comisiwn ar y rheolau diweddaraf ynghylch y defnydd diogel o gyfleusterau TGCh, yn enwedig y rheolau diwygiedig ynghylch defnydd 'webmail' gan yr Aelodau a'u staff. Cafwyd cais bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu ymhlith yr Aelodau a'r staff cymorth yn gyflym, a bod pawb yn cael eu hysbysu am y rheolau diogelwch o ran lawr lwytho ffeiliau. Gofynnwyd hefyd am sefydlu proses syml fel bod diffyg mynediad at wefannau gwaharddedig yn gallu cael ei oresgyn pan fo hynny'n briodol.**